# GWEITHDREFNAU AR GYFER GWNEUD CAIS, CYFLWYNO AC ARHOLI PhD DRWY WEITHIAU CYHOEDDEDIG

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 3.0 |
| **Dyddiad Dod I Rym** | 01.08.2023 |
| **Cysylltu** | Llywodraethu Addysg (PGR Ansawdd a Gweithrediadau) |
| **Perchennog Y Ddogfen** | pgr@caerdydd.ac.uk |
| **Rheoleiddio Rhiant** | Rheoliadau ar gyfer PhD drwy Waith a Gyhoeddir |
| **Dogfennau Cysylltiedig** | Rheoliadau Asesu Gradd Ymchwil<br>Y Polisi A'r Weithdrefn Ar Gyfer Penodi Byrddau Arholi Graddau Ymchwil (Arholiad Viva)<br>Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Cynnal Arholiadau Gradd Ymchwil |

# CYNNWYS

1. Datganiadau Cyffredinol .......... 1
2. Gwneud cais ac Asesiad Rhagarweiniol .......... 1
3. Cyflwyniad .......... 2
4. Arholiad .......... 2
5. Ar ôl yr arholiad .......... 3
Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch .......... 4

# GWEITHDREFNAU AR GYFER GWNEUD CAIS, CYFLWYNO AC ARHOLI PhD DRWY WEITHIAU CYHOEDDEDIG

**1. Datganiadau Cyffredinol**

1.1 Mae'r camau hyn yn gymwys ar gyfer ymgeiswyr am PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig yn unig.

1.2 Mae'r meini prawf cymhwysedd, y cyfnod astudio a diffiniad 'gweithiau cyhoeddedig' wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau ar gyfer PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig.

**2. Gwneud cais ac Asesiad Rhagarweiniol**

2.1 Dylai darpar ymgeisydd ar gyfer y PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig nodi'r Ysgol fwyaf perthnasol ar gyfer cofrestru, a gwneud cais ysgrifenedig i Bennaeth yr Ysgol honno.

2.2 Mae'n rhaid i'r cais ysgrifenedig gynnwys yr elfennau canlynol:

.1 y maes pwnc y mae eich cyfraniad i ysgolheictod yn perthyn agosaf iddo;

.2 y gweithiau cyhoeddedig rydych yn bwriadu eu cynnwys yn y cyflwyniad;

.3 pan mae unrhyw weithiau sydd wedi'u cyd-ysgrifennu neu eu cyflawni ar y cyd wedi'u cynnwys, datganiad o'ch cyfraniad personol tuag at y gweithiau hynny;

.4 crynodeb beirniadol byr, sy'n gosod y gweithiau cyhoeddedig mewn cyd-destun, yn dangos eu cydlyniant ac yn nodi'r cyfraniad at ddatblygiad gwybodaeth a gynrychiolir ganddynt: ni ddylai'r crynodeb beirniadol byr fod yn fwy na thudalen o hyd.

2.3 Mae'n rhaid cynnwys y gosodiadau a'r datganiadau canlynol yn y cais hefyd:

.1 nid yw'r cais arfaethedig wedi cael ei gyflwyno, neu nid yw'n cael ei gyflwyno, ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad mewn unrhyw brifysgol neu fan dysgu arall;

.2 pa rannau (os o gwbl) o'r gwaith neu'r gweithiau y bwriedir eu cyflwyno sydd wedi'u cyflwyno o'r blaen ar gyfer cymhwyster arall;

.3 na fydd y gwaith neu'r gweithiau, hyd nes y bydd canlyniad y cais presennol i'r Brifysgol yn hysbys, yn cael ei gyflwyno ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

2.4 Bydd Pennaeth yr Ysgol neu ei (h)enwebai yn pennu a ddylech gael caniatâd i gofrestru ar gyfer gradd PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig. Bydd

Pennaeth yr Ysgol/enwebai yn gwneud y penderfyniad hwn ar sail asesiad cychwynnol o'r gweithiau arfaethedig.

## 3. Cyflwyniad

3.1 Mae'n ofynnol i chi gyflwyno 3 chopi o'ch cyflwyniad i Bennaeth yr Ysgol/enwebai at ddibenion arholi.

3.2 Mae'n rhaid i'r cyflwyniad gynnwys:

.1 crynodeb heb fod yn fwy na 300 gair;

.2 rhestr o'r gweithiau a gyflwynir, gyda thystiolaeth o'u statws fel gweithiau cyhoeddedig;

.3 datganiad o hyd a lled eich cyfraniad i unrhyw weithiau sydd wedi'u cyd-ysgrifennu, a phob cyd-awdur i gadarnhau hynny;

.4 y gweithiau cyhoeddedig sydd i'w harholi;

.5 sylwebaeth feirniadol, fel y disgrifir isod.

3.3 Mae'n rhaid i'r sylwebaeth feirniadol fod rhwng 8,000 a 10,000 o eiriau. Ei ddiben yw gwerthuso cyfraniad y gweithiau cyhoeddedig at hybu'r ddisgyblaeth, a galluogi arholwyr i asesu'r cyflwyniad yn erbyn meini prawf gradd ddoethurol.

3.4 Gall y cyflwyniad fod ar ffurf copi caled neu ddigidol, yn unol â fformat ac arddull y cyhoeddiadau.

3.5 Dylech gyflwyno naill ai 2 gopi caled o'ch cyflwyniad i Bennaeth yr Ysgol/enwebai i'w harholi, neu un copi digidol.

3.6 Lle mai copi caled yn unig sydd ar gael, dylid gwneud y cyflwyniad fel un ddogfen wedi'i rhwymo pan mae hynny'n bosibl, ond pan gyflwynir llyfr(au) cyfan, dylid eu cyflwyno ar wahân yn eu fformat gwreiddiol.

3.7 Mae'n rhaid i 'Ffurflen Hysbysiad o Gyflwyno' gyd-fynd â'r cyflwyniad.

## 4. Arholiad

4.1 Bydd Pennaeth yr Ysgol/enwebai yn trefnu bod Panel (sy'n cynnwys Pennaeth yr Ysgol/enwebai, cynhorydd(ion) yr ymgeisydd ac un asesydd mewnol arall) yn adolygu'r cyflwyniad er mwyn penderfynu a ddylid ei gefnogi i gael ei dderbyn i'w arholi.

4.2 Caiff PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig a dderbynnir i'w arholi ei asesu'n unol â'r canlynol:

.1 Rheoliadau Asesu Gradd Ymchwil

.2 Y Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Penodi Byrddau Arholi Graddau Ymchwil (Arholiad Viva)

.3 <u>Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Cynnal Arholiadau Gradd Ymchwil</u>.

4.3 Nid yw unrhyw gyfeiriadau at draethawd ymchwil wedi'i ail-gyflwyno'n gymwys ar gyfer y PhD drwy weithiau cyhoeddedig.

**5. Ar ôl yr arholiad**

5.1 Dylech gyflwyno dau gopi caled o'r cyflwyniad a gymeradwywyd gan yr arholwyr, a fydd yn dod yn eiddo i'r Brifysgol

5.2 Bydd Cynullydd y Bwrdd Arholi'n trefnu bod un copi o'r cyflwyniad yn cael ei roi yn Llyfrgell Prifysgol Caerdydd, ac un copi yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.**

Mae’r weithdrefn hon yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

| **Disgwyliadau ar gyfer Safonau** | **Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd** |
|---|---|
| Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol. | Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr. |
| Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a dros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector. | O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono. |
| **Arferion Craidd o ran Safonau** | **Arferion Craidd o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod y trothwy o ran safonau ar gyfer ei gymwysterau yn cyd-fynd â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol. | Mae gan y darparwr system derbyn sy’n ddibynadwy, teg ac yn gynhwysol. |
| Mae’r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, prosesau asesu a dosbarthu sy’n ddibynadwy, teg ac yn dryloyw. | Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel. |
| | Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel. |
| | Pan mae’r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno’r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol. |
| **Arferion cyffredin o ran Aafonau** | **Arferion cyffredin o ran Ansawdd** |
| Mae’r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau yn aml ac yn defnyddio’r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. | Mae’r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio’r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. |
| | Mae dulliau’r ddarparwr tuag at rheoli ansawdd yn ystyried arbennigedd allanol. |

| | |
|---|---|
| | Mae’r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol. |